Brwydro yn erbyn tlodi ymhlith plant yng Nghymru: a oes strategaethau addysg effeithiol ar waith?

Safbwynt
Goleuo'r drafodaeth

Rhagfyr 2007

Mae gan Gymru ystod o bolisïau arloesol ym maes addysg sydd wedi'u bwriadu i frwydro yn erbyn effeithiau tlodi ymhlith plant ar gyrhaeddiad addysgol. Fodd bynnag, mae David Egan yn dadlau bod angen gwneud mwy er mwyn goresgyn y berthynas hon. Mae'n tynnu ar astudiaethau diweddar JRF o addysg a thlodi yn Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n berthnasol i Gymru.

Pwyntiau allweddol

- Mae'r gyfradd tlodi ymhlith plant wedi cael ei gostwng yn sylweddol yng Nghymru ond mae'n dal i effeithio ar un plentyn ymhob pedwar.
- Mae'r cysylltiad rhwng tlodi ymhlith plant a chyrhaeddiad addysgol isel yn hysbys i bawb a gellir ei ddangos yn glir yn y gyfundrefn addysg yng Nghymru.
- Cyflwynwyd ystod o bolisïau ym maes addysg dros y deng mlynedd ddiwethaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o'i hymgais gydunol i leihau tlodi ymhlith plant a brwydro'n erbyn ei effeithiau.
- Mae'r ymchwil gan JRF yn dadlau na all ysgolion oresgyn y cysylltiadau rhwng tlodi ymhlith plant a chyrhaeddiad addysgol isel ar eu pennau'u hunain ac mae'n nodi'r angen am y canlynol:

  - integreiddio polisïau addysg arwahanol i raddau llawer mwy helaeth, er mwyn cynyddu'u dylanwad ar effeithiau anfantais i'r eithaf
  - llawer mwy o bwyslais ar ystod o wasanaethau a ddarperir y tu allan i'r ysgol ac yn y gymuned ac a all roi cymorth i'r bobl ifanc hyn.

- Ar hyn o bryd yng Nghymru mae cryn dipyn o feddwl a chynllunio'n digwydd mewn perthynas â datblygu Rhaglen Effeithiolrwydd Addysg sydd wedi'i bwriadu i wella perfformiad addysgol a chael mwy o degwch o ran y canlyniadau i ddisgyblion. Mae'r papur hwn yn awgrymu y dylai hon roi ystyriaeth lawn i ganfyddiadau JRF, yn enwedig o ran yr angen am fwy o integreiddio rhwng polisïau a chael ystod ehangach o wasanaethau yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig.

Yr ymchwil
David Egan
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd

JOSEPH ROWNTREE FOUNDATION

www.jrf.org.uk

Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

Bu i adroddiad a baratowyd ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) yn 2005 ganfod bod 27 y cant o blant Cymru'n byw mewn tlodi (Kenway et al., 2005). Mae'r mesuriad hwn yn seiliedig ar aelwydydd ag incwm sy'n is na 60 y cant o'r incwm canolrifol ar gyfer math cyfatebol o aelwyd. Roedd y ffigwr o 27 y cant yn dangos gostyngiad sydyn mewn lefelau tlodi ymhlith plant yng Nghymru ers 1999 pan oeddent gyda'r gwaethaf yn y Deyrnas Unedig (Llundain a Gogledd Ddwyrain Lloegr yn unig oedd â lefelau gwaeth). Erbyn 2005, roedd Cymru wedi profi'r gostyngiad mwyaf yn unrhyw wlad neu ranbarth, i'r graddau bod ei chyfradd tlodi ymhlith plant bellach yn cyfateb i'r cyfartaledd ar gyfer y DU gyfan.

Gwnaed y cyflawniad sylweddol hwn yn bosib gan y newid er gwell sydd wedi digwydd yn economi Cymru a'r strategaeth gydunol a ddilynir gan lywodraethau'r Cynulliad a San Steffan i ddatblygu ystod o bolisïau cymdeithasol sydd wedi'u bwriadu i gael gwared ar dlodi ymhlith plant a'i effeithiau llechwraidd.

Nododd Kenway et al. hefyd fod dosbarthiad daearyddol tlodi ymhlith plant yng Nghymru'n anghyfartal. Roedd tua thraean o'r plant mewn tlodi'n byw yn ardaloedd y chwe awdurdod lleol yng nghymoedd De Cymru sydd fwy neu lai'n ardaloedd ôl-ddiwydiannol. Roedd traean arall yn byw yn ardaloedd y pum awdurdod lleol arall yn Ne Cymru (gyda nifer gymharol uchel yng Nghaerdydd) a'r draean arall yng ngweddill Cymru.

Cyhoeddwyd diweddariad o adroddiad 2005 ym mis Gorffennaf (Kenway a Palmer, 2007). Roedd hwn yn nodi mai ychydig o gynnydd oedd wedi bod o ran gostwng y ffigwr o 27 y cant ar gyfer tlodi ymhlith plant. Mae un ymhob pedwar plentyn yng Nghymru (180,000 o blant) felly'n dal i fyw mewn tlodi ac yn profi'i effeithiau niweidiol ar eu cyfleoedd bywyd. Mae'r Cyn-Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, Edwina Hart, wedi disgrifio'r effeithiau hyn fel a ganlyn:

> "Mae'n amlygu'i hun ar ffurf tangyflawni ac eithrio cymdeithasol; ar ffurf iechyd gwael; ac ar ffurf cyfleoedd cyfyngedig i blant o gefndiroedd difreintiedig. Mae'n niweidiol i blant unigol, i deuluoedd, i gymunedau ac i'r gymdeithas gyfan." (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006a)

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi blaenoriaeth gynyddol i'w pholisïau trawsbynciol sydd wedi'u bwriadu i fynd i'r afael â thlodi plant. Eglurwyd y rhain ym mis Chwefror 2005 yn y ddogfen strategol *'Dyfodol teg i'n plant': Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â thlodi ymhlith plant* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005). Roedd hon yn ymrwymo'r Llywodraeth i haneru'r gyfradd tlodi ymhlith plant erbyn 2010 a chael gwared ar y tlodi'n gyfan gwbl erbyn 2020. Elfennau allweddol y strategaeth fyddai:

- lleihau **tlodi incwm** trwy well cyfleoedd gwaith;
- rhoi terfyn ar **dlodi cyfranogiad** trwy fwy o gyfleoedd i blant o deuluoedd tlawd gael mynediad at weithgareddau chwarae, chwaraeon, hamdden a diwylliannol;
- lleihau **tlodi gwasanaethau** trwy wella'r mynediad at wasanaethau cyhoeddus i deuluoedd tlawd;
- canfod a monitro maint a natur tlodi ymhlith plant trwy ddefnyddio **ystod ehangach o fesuriadau**.

Ym mis Hydref 2006, arweiniodd y gofynion oedd yn gysylltiedig â'r un olaf at gyhoeddi cyfres o gerrig milltir a thargedau ar gyfer incwm a gwaith; addysg; iechyd a thai (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006a). Ym mis Tachwedd 2006, cafwyd wedyn Gynllun Cyflawni a oedd yn cynnwys cyfres o gynigion cyffredinol ar gyfer polisïau gan gynnwys 'prawf-fesur o safbwynt tlodi ymhlith plant' ar gyfer holl fentrau ac ymrwymiadau gwariant newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, camau 'plygu rhaglenni' mewn perthynas â chyllidebau a rhaglenni er mwyn rhoi ffafriaeth i'r plant tlotaf a'u teuluoedd ac adrodd yn flynyddol ar gerrig milltir a thargedau er mwyn dileu tlodi ymhlith plant yng Nghymru erbyn 2020 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006b).

Roedd maniffestos y pleidiau gwleidyddol ar gyfer Etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2007 yn rhoi sylw amlwg i dlodi ymhlith plant. Bu i'r Llywodraeth Glymblaid – a ffurfiwyd yn y pen draw ym mis Gorffennaf 2007 gan y Blaid Lafur yng Nghymru a Phlaid Cymru – seilio'i chytundeb ar raglen o bolisïau'n dwyn y teitl 'Cymru'n Un'. Mae hon yn rhoi amlygrwydd parhaus i ddileu tlodi ymhlith plant, gan gydnabod bod cynnydd wedi cael ei wneud yn y cyfeiriad hwn ond gan nodi "â chryn bryder" bod y sefyllfa'n parhau (Y Blaid Lafur yng Nghymru a Phlaid Cymru, 2007). Mae'n ailddatgan targedau gweinyddiaeth Lafur ddiwethaf Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn nodi nifer o gamau gweithredu y bwriedir eu cymryd, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ailadrodd y rhai a nodwyd uchod. Yn ychwanegol at hynny, ceir ymrwymiad i greu Grŵp Arbenigol a fydd yn datblygu polisïau yn y maes hwn ac yn ceisio pwerau deddfwriaethol sydd ar hyn o bryd yn rhan o gymhwysedd Llywodraeth San Steffan.

Effeithiau a dangosyddion

Nid oes amheuaeth bod cynnydd sylweddol wedi bod dros yr hanner canrif diwethaf o ran y ganran o'r bobl ifanc a gofrestrir ar gyfer ac sy'n ennill cymwysterau addysgol cydnabyddedig. Fodd bynnag, mae cyfradd y cynnydd yng Nghymru dros y degawd diwethaf yn cyflwyno darlun cymysg:

- Mae cyrhaeddiad disgyblion pan eu bod yn 5 ac 11 mlwydd oed wedi gwella'n barhaus. Mae hyn yn arbennig o wir am blant 11 mlwydd oed yn sgîl gwelliant o 12 pwynt canran dros y chwe blynedd ddiwethaf yn y gyfran o'r plant sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o ran eu perfformiad mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg.
- Mae cyrhaeddiad plant pan eu bod yn 14 ac 16 mlwydd oed hefyd wedi gwella yn ystod y cyfnod hwn, ond mae cyfradd y cynnydd wedi arafu ac mae weithiau wedi aros yn llonydd ac mae ar y cyfan yn llai na'r cynnydd mewn gwledydd a rhanbarthau eraill yn y DU.
- Mae pedwar ar ddeg y cant o'r disgyblion 16 mlwydd oed yn methu â chael pum TGAU ar unrhyw lefel.
- Mae gan Gymru gyfran arbennig o uchel o blant 16 mlwydd oed sy'n methu â chael unrhyw gymwysterau TGAU o gwbl.
- Mae pobl 17 mlwydd oed sydd heb 5 gymhwyster TGAU 'da' na chymhwyster galwedigaethol cyfatebol yn annhebygol iawn o fod wedi ennill unrhyw gymwysterau pellach erbyn eu bod yn 24.
- Mae nifer y bobl sy'n dilyn cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru rhwng 14 a 19 mlwydd oed yn isel o'i gymharu â safonau yn y DU ac, yn arbennig, yn Ewrop.
- Mae deg y cant o'r bobl 16 i 18 mlwydd oed yn rhai nad ydynt yn derbyn addysg na hyfforddiant, nac mewn gwaith.
- Mae'r gyfran o'r bobl 19 mlwydd oed sydd heb ennill o leiaf cymhwyster Lefel 2 yn 25 y cant, sy'n syndod o uchel. Ar y cyfan mae'n annhebygol y bydd y bobl ifanc hyn yn cyrraedd neu'n mynd y tu hwnt i'r lefel gymwysterau hon yn eu hugeiniau a byddant, felly, yn fwy agored i dâl isel ac anweithgarwch economaidd (Kenway a Palmer, 2007).

Yn aml, myfyrwyr yr effeithiwyd arnynt gan amryw fathau o anfantais, yn enwedig tlodi ymhlith plant, sy'n profi'r lefelau cyrhaeddiad isaf. Nid yw hyn yn wir am bawb wrth gwrs: mae nifer o ddisgyblion yn goresgyn anfantais ac yn gallu cyrraedd y lefelau cyrhaeddiad uchaf. Mae dwy astudiaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002) wedi rhoi sylw i'r ffenomenon sy'n golygu bod ysgolion yn rhai o'r ardaloedd anoddaf yng Nghymru o safbwynt economaidd-gymdeithasol wedi mynd yn groes i'r tueddiad arferol a chael llawer mwy o lwyddiant i'w myfyrwyr nag a fyddai'n ddisgwyliedig o bosib. Caiff canlyniadau o'r fath eu nodi hefyd yn un o'r astudiaethau ymchwil a gomisiynwyd yn ddiweddar gan JRF (Cassen a Kingdon, 2007). Mae'r maes academaidd a phroffesiynol sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ysgolion, gan gynnwys ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae amrywiadau mewn canlyniadau hefyd yn digwydd o fewn ysgolion a rhwng gwahanol Awdurdodau Addysg Lleol, yn cael sylw mawr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru erbyn hyn, fel a nodir ymhellach isod (Egan a Marshall, 2007).

Er gwaethaf y cymwysterau hyn, mae'r cyswllt rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol isel yn un niweidiol a adlewyrchir yn gryf yng Nghymru:

- Nododd Kenway et al. (2005) mai dim ond 6 y cant o'r disgyblion 16 mlwydd oed yn yr ysgolion â'r nifer isaf o ddisgyblion a chanddynt hawl i brydau ysgol am ddim a fethodd ag ennill o leiaf bum cymhwyster TGAU yn 2004. O'u cymharu, methodd 27 y cant o'r plant 16 mlwydd oed mewn ysgolion â chyfrannau uchel o blant a chanddynt hawl i brydau ysgol am ddim â chyrraedd y lefel honno.
- Mae'r cysylltiad cryf rhwng prydau ysgol am ddim a chyflawniad academaidd wedi cael ei nodi mewn cyhoeddiadau olynol gan ystadegwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae dadansoddiad o ganlyniadau myfyrwyr pan eu bod yn 14 ac 16 mlwydd oed yn dangos yn eglur bod lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn gostwng wrth i lefel yr hawl i brydau ysgol am ddim godi (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2006 a '07).
- Mae Ffigur 1 yn dangos y berthynas hon gan ystyried nifer y disgyblion sy'n cael pum gradd TGAU 'dda' (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007).
- Mae plant o gefndir di-grefft bum gwaith yn llai tebygol o fynd ymlaen i addysg bellach ac uwch na'r rheiny o gefndiroedd mwy cefnog (Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru a Plant yng Nghymru, 2006).

Ffigur 1: Fel mewn nifer o wledydd, yng Nghymru mae cysylltiad cryf rhwng anfantais a pherfformiad academaidd:

Disgyblion yn cael pump neu fwy o gymwysterau TGAU â graddau A*-C wedi'u grwpio yn ôl hawl i brydau ysgol am ddim



Yn cynnwys: Cymru. Mae'r ganran o'r plant mewn ysgol benodol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim (PYaDd) yn arwydd dirprwyol o anfantais

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007

Pam tybed nad yw plant sy'n profi tlodi ymhlith plant yn gwneud gystal yn yr ysgol? Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru a Plant yng Nghymru'n cynnig y rhesymau canlynol:

- diffyg mynediad at adnoddau, gweithgareddau a chyfleoedd y tu allan i'r ysgol o'u cymharu â'u cyfoedion mwy ffodus;
- byw mewn tai gorlawn ac annigonol;
- eu rhieni'n chwarae llai o ran yn eu haddysg;
- disgwyliadau a dylanwad y grŵp cyfoedion;
- effaith gwarth, bwlio a'r teimlad nad ydynt yn cael eu parchu;
- anawsterau emosiynol ac ymddygiadol;
- lefelau uwch o anghenion dysgu ychwanegol;
- ymddieithriad oddi wrth addysg uwchradd;
- tebygolrwydd uwch o feichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau.

Mae'n ddiddorol bod nifer o'r ffactorau hyn yn adlewyrchu'r canfyddiadau mewn adroddiad a baratowyd gan Gronfa Blant y Cenhedloedd Unedig (UNICEF) ym mis Chwefror 2007 ar les plant mewn gwledydd cyfoethog (UNICEF, 2007). Mae hwn yn defnyddio ystod ehangach o lawer o ddangosyddion ansoddol yn ogystal â meintiol i farnu canlyniadau addysgol mewn un ar hugain o wledydd diwydiannol gan gynnwys y DU. Y categorïau yr ymchwiliwyd iddynt wrth lunio'r adroddiad oedd lles materol, perthnasau â theulu a chyfoedion, iechyd a diogelwch, ymddygiad a risgiau ac ymdeimlad plant eu hunain o les. Er bod llawer o'r data'n ymwneud â Lloegr yn unig, ymddengys fod casgliad yr adroddiad sef bod y DU ar waelod y tabl lles plant ar gyfer y gwledydd hyn, yn arwydd o'r cysylltiadau rhwng y ffactorau hyn, sef tlodi ymhlith plant a chyrhaeddiad addysgol isel.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymateb i'r adroddiad hwn trwy sefydlu Monitor Lles Plant Cymru a fydd yn adrodd bob tair blynedd ar y meysydd canlynol:

- addysg a chyfleoedd dysgu yn y Blynyddoedd Cynnar;
- iechyd, rhyddid o gam-drin a fictimeiddio;
- mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
- bod â chartref diogel a chymuned ddiogel sy'n cynnal lles emosiynol;
- rhyddid o dlodi ymhlith plant.

Datrysiadau cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg

Ers 1999, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno ystod eang o bolisïau addysgol a'r ysgogiad ar gyfer nifer o'r rheiny'n deillio o leiaf yn rhannol o'r achos sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol – yr angen i fynd i'r afael ag anfantais addysgol yn gyffredinol a thlodi ymhlith plant yn enwedig. Yn y datganiad strategol mwyaf diweddar ar bolisi addysg yng Nghymru, Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006c; Medi), mae Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar y pryd, yn nodi bod y polisïau a amlinellir yn y datganiad yn rhan annatod o'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Tlodi ymhlith Plant. Mae hefyd yn amlwg yn y cytundeb Cymru'n Un bod gwleidyddion yn dal i ystyried bod gan addysg ran flaenllaw o ran mynd i'r afael â chanlyniadau tlodi ymhlith plant.

Mae'r meysydd polisi hyn yn cynnwys:

- *Dechrau'n Deg.* Rhaglen wariant fawr sy'n cynnig cymorth dwys a chymorth wedi'i dargedu i'r plant 0-3 mlwydd oed mwyaf difreintiedig yng Nghymru a'u teuluoedd. Cânt hawl i fwy o fynediad at gyfleusterau gofal plant rhad-ac-am-ddim, ymwelwyr iechyd, rhaglenni rhianta (fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Rhianta) a gwasanaethau eraill.
- *Brecwast Am Ddim i Ddisgyblion Cynradd.* Yn dilyn rhaglen beilot mewn cymunedau difreintiedig, bellach mae gan yr holl ddisgyblion cynradd yng Nghymru hawl i frecwast maethlon am ddim ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Mae hyn yn digwydd erbyn hyn mewn mwy na 50 y cant o'r ysgolion cynradd yng Nghymru, gyda nifer ohonynt yn nodi bod eu disgyblion yn canolbwyntio'n well, a bod eu hagwedd a'u hymddygiad wedi gwella.
- *Y Cyfnod Sylfaen.* Cwricwlwm newydd i blant 3-7 mlwydd oed sy'n seiliedig ar chwarae a bod yn greadigol. Mae'n adlewyrchu tystiolaeth o bob rhan o'r byd o ran y ffordd orau o ddarparu addysg blynyddoedd cynnar a fydd yn galluogi'r holl bobl ifanc i gyflawni'u potensial. Mae'r dystiolaeth hydredol yn awgrymu y gall dulliau o'r fath wella cyfleoedd bywyd mewn amrywiaeth o ffyrdd sy'n goresgyn anfantais a'r risg o fethiant personol. Y bwriad yw y bydd y Cyfnod Sylfaen, wrth gael ei gyflwyno fel rhaglen genedlaethol o fis Medi 2008 ymlaen, yn cynnwys cymarebau rhwng staff a disgyblion o un i wyth ar gyfer y plant ifancaf ac un i bymtheg ar gyfer plant 5 i 7 mlwydd oed (Siraj-Blatchford, I. et al., 2006).
- *Integreiddio Gwasanaethau Plant.* Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru enwebu Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant, i lunio cynllun unigol ar gyfer gwasanaethau plant a chreu partneriaeth sy'n cynnwys yr holl gyrff y mae a wnelont â'r maes. Mewn nifer o ardaloedd mae Canolfannau Plant integredig i'w cael bellach a'r rheiny'n cynnig lleoliadau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y fath fodd cydgysylltiedig.
- *Y Rhaglen Rhagori.* Y fenter hon (Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru) yw'r rhaglen fwyaf i gael ei chynnal erioed yng Nghymru er mwyn gwella lefelau cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig . Gan ddefnyddio cyllid ychwanegol o gyllideb 2006, mae'n darparu £32 miliwn dros y ddwy flynedd hyd at 2008 ar gyfer ysgolion yng Nghymru lle mae cyfradd y disgyblion sy'n hawlio prydau ysgol am ddim yn 20 y cant neu'n uwch, er mwyn datblygu strategaethau addasedig megis cymorth gyda llythrennedd, gweithgareddau y tu allan i oriau arferol a chyfleoedd cwricwlaidd estynedig. Datblygwyd y fenter hon fel ymateb penodol i'r ymwybyddiaeth gynyddol bod y cysylltiadau rhwng anfantais a chyrhaeddiad isel yn arbennig o gryf yng Nghymru (Davidson, 2006).
- *Cyllid i fyfyrwyr.* Cyflwynwyd hefyd Lwfansau Cynhaliaeth Addysg a ddarperir yn bythefnosol i annog pobl ifanc o gartrefi ar incwm is i barhau i ddysgu ar ôl 16 a Grantiau Dysgu'r Cynulliad a ddarperir yn flynyddol i roi cymorth i bobl ifanc o aelwydydd ar incwm isel i gael mynediad at addysg bellach ac addysg uwch.
- *Ysgolion Bro.* Gan gydnabod bod y cyfleusterau a ddarperir mewn ysgolion yn adnodd cymunedol a ddylai fod ar gael y tu allan i'r diwrnod ysgol a bod rhai o'r ysgolion yng Nghymru sy'n cael canlyniadau uwch na'r disgwyl yn sefydliadau cymunedol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno rhaglen Ysgolion Bro. Mae'r rhaglen wedi defnyddio cyllid o £6.8 miliwn rhwng 2005 a 2007 i gyflwyno amrywiaeth o ddarpariaeth mewn ysgolion, a rhywfaint o'r ddarpariaeth honno'n bodoli yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r sefyllfa o ran cyllid ar gyfer y rhaglen yn y dyfodol yn ansicr (Contin You, 2006).
- *Targedau penodol ar gyfer tlodi ymhlith plant.* Mae'r cynlluniau strategol i fynd i'r afael â thlodi ymhlith plant a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn ystod y weinyddiaeth flaenorol, fel a nodir uchod, yn cynnwys nifer o dargedau penodol ar gyfer addysg mewn perthynas, er enghraifft, â gwella perfformiad disgyblion pan eu bod yn 11, 14 ac 16 mlwydd oed; gostwng y gyfran o blant 16 i 18 mlwydd oed nad ydynt mewn gwaith, nac yn derbyn addysg na hyfforddiant (y grŵp 'NEET') a gwella cyflawniad plant sy'n derbyn gofal. Mae'r ddogfen Cymru'n Un yn cynnwys addewid i roi mwy o sylw i ofal plant, lleihau maint dosbarthiadau ar gyfer plant 3 i 7 mlwydd oed, creu mwy o ysgolion bro ac integreiddio mentrau presennol mewn perthynas â thlodi ymhlith plant gan ddefnyddio Cynllun Gofodol Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006b).

Dylid ystyried y polisïau hyn yng nghyd-destun agenda bolisi ehangach, y mae cryn dipyn ohoni wedi'i sbarduno gan ymrwymiad i fwy o gyfiawnder cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys polisïau sydd wedi osgoi defnyddio tablau cynghrair ar gyfer ysgolion, sydd wedi golygu rhoi'r gorau i roi profion cenedlaethol i ddisgyblion pan eu bod yn 5, 11 a 14 mlwydd oed, ac ymrwymiad cryf i ddiwygio addysg a hyfforddiant 14-19 a rhoi mwy o lais i bobl ifanc trwy Gynghorau Ysgol statudol a mesurau eraill.

Fodd bynnag, yn yr amgylchedd polisi tanbaid a thoreithiog sydd ohoni ers datganoli grym i Gymru, nid yw integreiddio a chael synergedd rhwng polisïau wastad wedi bod yn nodweddion cryf. Mae'n debygol mai Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru fyddai'r bobl gyntaf i gydnabod y gwendid hwn yn yr agenda bolisi. Gellid ystyried bod cyflwyno Rhagori'n enghraifft o hyn. Cyn y cynnydd annisgwyl yn y gyllideb ym mis Ebrill 2006, roedd ymwybyddiaeth gynyddol eisoes yn bodoli am yr anawsterau cyndyn sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad isel ac roedd bwriad ym maes polisïau i wneud rhywbeth er mwyn mynd i'r afael â hyn. Roedd y rheidrwydd gwleidyddol i anelu'r cyllid ychwanegol oedd ar gael at y maes hwn a chael canlyniadau cyflym trwy bolisïau'n golygu ei bod yn anochel na fyddai camau llawn yn cael eu cymryd i integreiddio polisïau.

Gellir awgrymu hefyd, er ei bod yn amlwg bod cryn dipyn wedi cael ei wneud ym maes addysg er mwyn cyflwyno polisïau sydd wedi'u bwriadu i wrthweithio effeithiau anfantais, mai ychydig o wybodaeth fanwl sydd gennym am yr effaith wirioneddol y mae'r polisïau hyn wedi'i chael, yn unigol ac ar y cyd. Er bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymrwymedig i bolisïau a gwerthuso seiliedig-ar-dystiolaeth, nid oes gwaith ymchwil a gwerthuso trawsbynciol o'r math hwn wedi cael ei wneud.

Yn fwy diweddar mae Adran Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o ymrwymiad i gynnal diwygiad systemig o'r gyfundrefn addysg yng Nghymru ar bob lefel (y wladwriaeth, awdurdodau lleol ac ysgolion) ac yn unol â'r strategaeth a nodir yn Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith, wedi bod yn datblygu Rhaglen Effeithiolrwydd Addysg Genedlaethol. Un o'r prif ysgogiadau ar gyfer y rhaglen honno yw'r uchelgais i wella perfformiad myfyrwyr gan gynnwys goresgyn y cysylltiadau rhwng anfantais a chyflawniad isel. Trwy hynny, ceir cydnabyddiaeth y bydd yn ofynnol integreiddio polisïau a rhaglenni presennol yn fwyfwy dan ymbarél y Rhaglen Effeithiolrwydd gyffredinol. Er bod y rhaglen yn bennaf yn ystyried yr effaith y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn ei chael ar sicrhau deilliannau a chanlyniadau addysgol effeithiol, mae hefyd yn cynnwys cydnabyddiaeth bod agenda ehangach yn ymwneud â lles plant y dylid mynd i'r afael â hi (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007).

Negeseuon o Raglen Addysg a Thlodi JRF

Ym mis Medi 2007, cyhoeddodd JRF gyfres o astudiaethau seiliedig-ar-dystiolaeth o addysg a thlodi a gwblhawyd gan arbenigwyr academaidd yn y maes. Er bod nifer o'r astudiaethau hyn wedi ystyried y cyd-destun Cymreig, nid yw'r un wedi ymdrin yn benodol â Chymru nac â datblygiadau arwahanol yn y wlad. Serch hynny, maent yn debygol o fod yn berthnasol iawn i addysg a thlodi ymhlith plant yng Nghymru. Pa negeseuon ynddynt felly sydd i'w gweld yn berthnasol i'r polisïau addysg sy'n cael eu dilyn yng Nghymru?

Mae'r astudiaeth gefndir allweddol yn amlygu'r ffaith bod ysgolion yn gwneud gwahaniaeth i gyflawniad academaidd (Cassen a Kingdon, 2007). Gan ystyried yr holl ffactorau eraill y gellir eu mesur, mae'r cyfrifiad gan yr awduron yn nodi y gall ysgolion uwchradd o ansawdd uchel ychwanegu hyd at 14 y cant mewn gwerth o safbwynt canlyniadau o'u cymharu â rhai o ansawdd gwael. Mae'r canfyddiad hwn yn gyson ag astudiaethau eraill o effaith strategaethau effeithiolrwydd ysgolion, y mae rhai ohonynt wedi awgrymu y gall ysgol dda, ar lefel TGAU er enghraifft, ychwanegu hyd at ddwy Radd C arall at berfformiad disgybl (Gray a Wilcox, 1998).

Y pwynt arall y mae hyn yn ei gyfleu, wrth gwrs, yw nad ysgolion yw'r unig benderfynydd, nac o anghenraid y prif ddylanwad, sy'n effeithio ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae gweddill astudiaethau JRF yn ategu'r fath ddehongliad yn gryf, gan roi pwyslais sylweddol ar ddylanwadau a datrysiadau y tu allan i'r ysgol.

Ysgolion bro

Mae nifer o'r astudiaethau'n awgrymu bod ysgolion estynedig a gweithgareddau y tu allan i oriau arferol yn arbennig o bwysig i ddisgyblion difreintiedig: nid ydynt yn mwynhau'r ystod na'r cyfoeth o gyfleoedd dysgu y tu allan i'r ysgol sydd ar gael i'w cyfoedion mwy breintiedig (Wikely et al., 2007; Frankham et al., 2007).

Mae'r astudiaethau hyn hefyd yn awgrymu bod ansawdd y profiadau a gynigir i'r bobl ifanc ddifreintiedig lawn gyn bwysiced â'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael. Yn arbennig, mae'r bobl ifanc hyn yn profi diffyg mynediad at weithgareddau wedi'u trefnu. Mae clybiau fforddiadwy a chludiant y rhoddir cymhorthdal ar ei gyfer yn ffactorau pwysig sy'n hwyluso'r fath brofiadau o ansawdd uchel.

Ystyrir fod rôl oedolion yn hanfodol bwysig hefyd o ran cefnogi'r gweithgareddau hyn a rhyngweithio â phobl ifanc mewn ffordd sy'n dra gwahanol i'w perthnasau ag athrawon mewn ysgolion. Y ffordd orau o ystyried yr oedolion hyn yw fel ffrindiau sydd, fel y bobl ifanc, yn cymryd rhan yn wirfoddol yn y gweithgareddau ac sydd hefyd yn cyfranogi o ddysgu.

Y ffaith bwysicaf oll yw bod y bobl ifanc yn dewis cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn a bod hyn yn cael dylanwad amlwg ar ganlyniadau llwyddiannus. Mae hyn oll yn awgrymu y gall ysgolion bro o ansawdd uchel sydd wedi'u hanelu'n benodol at bobl ifanc ddifreintiedig gael effaith fawr ar eu hagwedd tuag at addysg a chyflawniad.

Ymddengys fod nifer o oblygiadau yma i bolisïau cyfredol yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- A yw'r rhaglen Ysgolion Bro gyfredol yn ddigon mawr i gael y math o effaith a awgrymir gan astudiaethau JRF ac a geir yn ôl pob golwg yn y Rhaglen Ysgolion Estynedig yn Lloegr (Cummings, et al., 2005)? O ystyried bod y gyllideb gyfredol ar gyfer y rhaglen yn gymharol fach (tua £3 miliwn y flwyddyn), nad yw'r rhaglen wedi'i hanelu'n benodol at y cymunedau/y bobl ifanc sydd fwyaf dan anfantais a bod ei dyfodol yn ansicr, ymddengys mai ateb negyddol fyddai i'r cwestiwn hwn.
- Pa dystiolaeth sydd gennym o effaith y rhaglen Ysgolion Bro a rôl ysgolion yn y rhaglenni Dechrau'n Deg a Rhagori? Er ei bod yn wir bod y rhaglenni hyn mewn cyfnod cynnar iawn ac nad yw canlyniadau gwerthusiadau sydd wedi'u comisiynu ar gael eto, ymddengys eto mai dim llawer fyddai'r ateb. Er mwyn deall yr effaith y gallai ysgolion bro ei chael ar dlodi ymhlith plant ac anfantais ac er mwyn deall hefyd, yng ngoleuni tystiolaeth JRF, beth arall ellir ei wneud, ymddengys fod dirfawr angen y math hwn o asesiad integredig o effeithiau polisïau.
- O gofio'r drafodaeth am yr angen i fynd ati i raddau helaeth i resymoli lleoedd mewn ysgolion yng Nghymru o ganlyniad i ostyngiad sylweddol yn niferoedd y disgyblion, sy'n golygu bod posibilrwydd y ceir rhaglen fawr i gau ysgolion dros y degawd nesaf, a yw pwnc 'ysgolion bro' yn cael digon o sylw yn yr ystyriaethau (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2007)? Eto, ymddengys nad ydyw.

Llais y dysgwyr

Caiff safbwyntiau pobl ifanc ddifreintiedig eu hunain eu defnyddio'n rymus yn nifer o astudiaethau JRF, yn enwedig yn y gwaith ar gysylltiadau rhwng tlodi a llythrennedd (Kellet a Dar, 2007) a'r astudiaeth o addysg gynradd yng Ngogledd Iwerddon (Horgan, 2007). Maent yn awgrymu mai dim ond trwy wrando'n ofalus ar bobl ifanc y gallwn ddechrau deall materion sy'n gysylltiedig â thlodi, anfantais a chyflawniad addysgol.

Mae astudiaeth Horgan yn arbennig o ddadlennol gan ei bod yn dangos bod plant sy'n profi tlodi o oedran ifanc iawn yn dangos ymwybyddiaeth glir o'r anawsterau y byddant yn eu hwynebu yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol a sut y bydd hyn yn effeithio ar ganlyniadau'u haddysg. Ymddengys fod bechgyn yn meddu ar ddealltwriaeth arbennig o gryf am y ffordd y mae tlodi'n effeithio arnynt hwy ac ar eu haddysg. Dwy enghraifft rymus o'r pryder y bydd y bobl ifanc hyn yn ei deimlo yw cost gwisg ysgol a chost gwibdeithiau ysgol.

Mae astudiaeth Kellet a Dar o lythrennedd yn dangos bod plant o gefndiroedd mwy breintiedig yn mwynhau cryn dipyn o gymorth y tu allan i'r ysgol i oresgyn eu problemau, cymorth nad yw eu cyfoedion difreintiedig yn ei dderbyn. Mae'r ail grŵp bron yn gyfan gwbl ddibynnol ar glybiau gwaith cartref y tu allan i'r ysgol er mwyn cael mynediad at gymorth o'r fath. Mae'n amlwg mai dim ond trwy gynyddu'u hyder y gall disgyblion difreintiedig sy'n profi anawsterau â llythrennedd oresgyn eu problemau. Er mwyn i hyn ddigwydd mae gofyn darparu amser sydd wedi'i gysegru ac nad yw'n fygythiol yn ogystal ag amser gyda'u rhieni i ddatblygu dysgu teuluol. Ni all y math hwn o gymorth gael ei ddarparu yn ystod y diwrnod ysgol na chan ysgolion ar eu pennau'u hunain.

Pa oblygiadau a chwestiynau sydd i'w gweld yn deillio o hyn i Gymru?

- Mae gan Gymru hanes da o gydnabod hawliau plant a phobl ifanc, gan gynnwys cefnogaeth i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, cyflwyno Cynghorau Ysgol statudol a nifer o feysydd polisi y mae cyfranogiad pobl ifanc wedi'i gynnwys ynddynt. Byddai'n anodd, fodd bynnag, cyfeirio at feysydd polisi penodol lle mae'r math o dystiolaeth seiliedig-ar-ymchwil a ddefnyddiwyd yn astudiaethau JRF, wedi cael effaith ar syniadau ym maes polisïau. Ble mae'r ymchwil o ansawdd uchel yng Nghymru sy'n cyflwyno safbwyntiau'r grŵp cyffredinol o bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio, sy'n anodd i'w cyrraedd, ac y mae'u cyflawniad yn isel a safbwyntiau'r rheiny sydd wedi'u heithrio ac sy'n perthyn i'r grŵp NEET yn arbennig?

- Mae tystiolaeth a gasglwyd o waith gydag ysgolion yng Nghymru fel rhan o ddatblygiad y Rhaglen Effeithiolrwydd Addysg ac o astudiaeth ryngwladol barhaus o ysgolion effeithiol yn awgrymu mai un o briodweddau diffiniol sefydliadau o'r fath yw'r gwerth uchel y maent yn ei roi ar safbwyntiau pobl ifanc, eu rhieni a'r gymuned ehangach (Ymchwil heb ei chyhoeddi). Mae hyn yn dilysu tystiolaeth JRF ac yn awgrymu y dylid mynd ati'n fwy taer i gryfhau rôl a dylanwad llais y dysgwyr yng Nghymru.

Rôl oedolion

Mae bron pob un o astudiaethau JRF yn cyfeirio at bwysigrwydd cael ystod o oedolion priodol, gan gynnwys athrawon ond nid athrawon yn unig, yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n ddifreintiedig ac wedi'u heithrio er mwyn cynyddu'u hyder a'u hannog i gyfranogi'n fwy o gyfleoedd addysg a hyfforddiant.

Mae hyn yn cynnwys mathau eraill o weithwyr proffesiynol fel rhan o'r agenda gwasanaethau plant ehangach, fel y mae Horgan (2007) yn ei ddadlau trwy awgrymu y dylai staff gofal a lles fod wedi'u lleoli mewn ysgolion. Y tu hwnt i'r proffesiynau presennol, fodd bynnag, mae angen i fathau newydd o weithwyr proffesiynol ddod i'r amlwg ar ffurf mentoriaid, hyfforddwyr, y rheiny sy'n rhoi cymorth gyda llythrennedd a gweithwyr ieuenctid. Mae hyn yn dwyn goblygiadau eglur o safbwynt hyfforddiant ac amodau gwasanaeth y staff yma ac o safbwynt yr holl agenda datblygu'r gweithlu.

Mae nifer o oblygiadau i ddatblygiadau polisi yng Nghymru yn y maes hwn. Mae'r angen i ddatblygu mathau newydd o weithwyr proffesiynol ym myd addysg eisoes yn fater o bwys yn y rhaglen Dechrau'n Deg, yn rhaglen y Cyfnod Sylfaen ac yn y rhaglen diwygio addysg 14-19. O ran yr olaf o'r rhain, mae Hyfforddwyr Dysgu'n cael eu hyfforddi i weithio gyda phobl ifanc mewn ffordd debyg iawn i'r un a awgrymir fel arfer da gan astudiaethau JRF.

- A ddylai'r model hwn gael ei fireinio a'i ymestyn ar draws y gyfundrefn addysg fel ffordd o roi cymorth ychwanegol i'n pobl ifanc fwyaf difreintiedig er mwyn eu cynorthwyo, yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol, gan roi terfyn ar y sefyllfa lle maent wedi'u heithrio, a chan gynyddu'u hyder a gwella'u canlyniadau?

Llywodraethwyr a chyrff llywodraethol

Mae'r astudiaeth o rôl llywodraethwyr ysgolion a chyrff llywodraethol mewn ardaloedd difreintiedig (Dean et al., 2007) yn ategu'r farn mewn ymchwil gyfoes arall y gall llywodraethwyr chwarae rhan bwysig mewn perthynas ag effeithiolrwydd ysgolion. Ymddengys fod hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd difreintiedig er bod yr heriau y mae cyrff llywodraethol yn eu hwynebu yn y sefyllfaoedd hyn yn sylweddol. Maent yn wynebu problemau wrth recriwtio aelodau addas er mwyn bod â'r gallu i gyflawni'u rôl, gan gynnwys herio penaethiaid yn ogystal â'u cefnogi. Mae astudiaeth JRF yn awgrymu, felly, y gall fod angen modelau newydd ar gyfer llywodraethu ysgolion er mwyn goresgyn y rhwystrau hyn a galluogi cyrff llywodraethol i gyflawni'u potensial.

Ymddengys fod agweddau yma sy'n berthnasol i Gymru.

- Beth ydym yn ei wybod am rôl cyrff llywodraethol yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig a hefyd mewn perthynas â'r ysgolion hynny sy'n perfformio'n well na'r disgwyl?
- A oes/ddylai fod gan gyrff llywodraethol rôl eglur o ran ceisio goresgyn effeithiau tlodi ac anfantais ymhlith plant a pha oblygiadau allai ddeillio o hyn o safbwynt llywodraethu ysgolion?
- Pa dystiolaeth allai fod yn dod i'r fei o'r rhaglen Rhagori yn y maes hwn y gellid ei chynnwys mewn ffordd ddefnyddiol yn y Rhaglen Effeithiolrwydd Addysg sydd wrthi'n datblygu?

Pobl ifanc sydd wedi'u heithrio

Mae un o'r astudiaethau a gomisiynwyd gan JRF yn codi cwestiynau penodol am bobl ifanc sydd wedi'u heithrio ac sy'n anodd i'w cyrraedd (Thompson a Russell, 2007). Mae'n cyfeirio at bwysigrwydd ymgynghori â'r bobl ifanc hyn a'u rhieni er mwyn ystyried y ddarpariaeth fwyaf priodol y gellir ei threfnu er mwyn eu hannog i ddychwelyd i fyd addysg. Maent hefyd yn awgrymu bod angen mynd ati'n fwy trylwyr i gasglu data, gan ganfod pam fod y bobl ifanc hyn wedi'u heithrio ac yn anodd i'w cyrraedd. Mae gwell trefniadau i sicrhau ansawdd y rhaglenni a gynigir iddynt a chynlluniau yn y tymor hirach ar gyfer y strategaethau sy'n bodoli i roi cymorth iddynt hefyd yn elfennau sy'n hanfodol i lwyddiant. Ymddengys fod ar y rheiny yn y grŵp NEET angen strategaethau a chymorth sydd wedi'u haddasu fel eu bod yn gweddu i'w hanghenion penodol hwy. Ar y cyfan, mae angen llawer mwy o fuddsoddi yn y bobl ifanc hyn er mwyn eu hachub rhag bod wedi'u heithrio. Mae hyn yn cynnwys bod â'r math iawn o weithwyr proffesiynol sydd wedi derbyn hyfforddiant ac sy'n derbyn tâl priodol.

- Ymddengys fod goblygiadau amlwg yma i'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb yng Nghymru. Mae nifer o'r canfyddiadau hyn yn cyd-daro â'i Adroddiad Interim a gallai fod yn ddefnyddiol eu hystyried fel rhan o'i drafodaethau yn y dyfodol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007).

Materion eraill

Mae nifer o faterion a chwestiynau penodol eraill yn codi yn astudiaethau JRF a allai fod yn berthnasol i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pa un a ddylai materion sy'n ymwneud â thlodi ac anfantais ymhlith plant ddod yn rhan o'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol;
- y ddadl dros blygu'r polisi ar chwarae i ystyried yr anawsterau a wynebir mewn ardaloedd difreintiedig o ran darparu mannau agored addas ar gyfer chwarae;
- cyflwyno rhaglenni rhianta a dysgu teuluol o ansawdd uchel ar gyfer rhieni plant sy'n profi tlodi ymhlith plant, gan gynnwys pobl ifanc sydd wedi'u heithrio;
- cyflwyno canllawiau ar bolisïau gwaith cartref sy'n ystyried y sefyllfa anodd a wynebir gan blant sy'n profi tlodi a'r cymorth a allai fod ar gael iddynt;
- cyflwyno strategaeth llythrennedd wedi'i hanelu'n benodol at bobl ifanc ddifreintiedig;
- trefnu bod Cardiau Cyfleoedd Ieuenctid ar gael i bobl ifanc ddifreintiedig er mwyn eu galluogi i gael mynediad am ddim at gyfleusterau a rhaglenni cymunedol;
- cyflwyno strategaethau ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau penodol a wynebir gan fechgyn sy'n profi tlodi ymhlith plant.

Ymddengys fod pob un o'r uchod yn teilyngu ystyriaeth ddifrifol ond mae neges glir iawn hefyd yn deillio o astudiaeth gan Raffo et al. (2007) o bolisïau addysg presennol sy'n ymgais i fynd i'r afael â thlodi. Maent yn dadlau'n gryf mai dim ond trwy gydgysylltu'r polisïau hynny y gellir cael a chynnal llwyddiant gwirioneddol wrth oresgyn y cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol isel. Maent yn mynnu bod angen i bolisïau yn y maes hwn "fod yn seiliedig ar weledigaeth gyffredinol o'r ffordd y mae amryw ymyraethau'n cyd-fynd â'i gilydd ac i ba ddibenion".

Caiff y neges hon ei hadleisio yn astudiaeth Cassen a Kingdon (2007) o gyflawniad addysgol isel. Maent yn dod i'r casgliad nad oes "un fwled hud" y gellir ei defnyddio i oresgyn y cysylltiad rhwng tlodi ymhlith plant a chyrhaeddiad isel ac mai'r hyn y mae angen ei wneud yw mireinio polisïau sydd eisoes yn bodoli i ysgolion a'u gweithredu'n llawn. Maent yn cyfeirio'n benodol at yr angen am well strategaeth llythrennedd mewn ysgolion cynradd, at ddarpariaeth o ansawdd uwch ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, cyflwyno cwricwlwm galwedigaethol deniadol, syniad ehangach am gyflawniad disgyblion na'r un cul sy'n ymwneud â 5 Gradd A-C ar lefel TGAU a mwy o gyllid ar gyfer ysgolion difreintiedig.

Yr hyn sydd hefyd yn amlwg yn astudiaethau JRF yw nad yw'n wir o gwbl bod ysgolion, er bod ganddynt ran fawr i'w chwarae o ran mynd i'r afael â'r berthynas rhwng tlodi ymhlith plant a chyrhaeddiad addysgol isel a cheisio'i goresgyn, yn gallu gwneud hyn ar eu pennau'u hunain ac nad yw'n wir ychwaith mai hwy o anghenraid sydd â'r rhan bwysicaf yn hyn o beth. Mae'r cyfosodiad o astudiaethau JRF a baratowyd gan Donald Hirsch yn cyfleu'r pwynt hwn yn gryf gan nodi "na all cyfleoedd addysgol ddibynnu'n llwyr ar gyflwyno cwricwlwm yr ysgol mewn ffordd well ar gyfer grwpiau difreintiedig, ond bod rhaid iddynt fynd i'r afael â sawl agwedd ar fywydau plant difreintiedig" (Hirsch, 2007). Iddo ef, felly, "bydd trawsnewid perthnasau addysgol y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth o leiaf gyn bwysiced â mynd ati mewn ffordd effeithlon i gyflwyno cwricwlwm yr ysgol yn yr ymdrech i hybu cyfleoedd plant o deuluoedd difreintiedig".

Datblygu polisïau ymhellach

Mae'r dadansoddiad a gynigiwyd uchod yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, wrth ddatblygu polisïau i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ymhlith plant a brwydro'n eu herbyn yn y gyfundrefn addysg yng Nghymru, ystyried y canlynol:

- Llawer mwy o integreiddio rhwng polisïau addysgol cyfredol sy'n cael dylanwad ar effeithiau tlodi ymhlith plant. Dylai hyn fod yn seiliedig ar ymchwil a gwerthusiad o'r effaith arwahanol y gallant fod yn ei chael yn unigol ac ar y cyd. Dylai llais y dysgwyr gael rôl fwy arwyddocaol yn hyn o beth.
- Yr erfyn y dylid ei ddefnyddio i integreiddio'r polisïau hyn yn y dyfodol yw'r Rhaglen Effeithiolrwydd Addysg sy'n dod i'r amlwg, ac a ddylai gynnwys y gallu i ddylanwadu ar bolisïau gan ei gwneud yn bosib addasu'r modd y caiff ei gweithredu a'r effaith y mae'n ei chael er budd disgyblion ac ysgolion difreintiedig.
- Cydnabyddiaeth agored na all ysgolion fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ymhlith plant ar addysg ar eu pennau'u hunain.
- Mynd ati i raddau mwy helaeth i integreiddio'r agenda gwasanaethau plant ehangach yn y rhaglen Effeithiolrwydd Addysg trwy ddatblygu Strategaeth Lles Plant oddi mewn iddi.
- Camau gweithredu yn y meysydd pwysig a adnabuwyd gan astudiaethau JRF, yn enwedig datblygiad rhaglen Ysgolion Bro mewn ardaloedd difreintiedig, fel ffordd o gynnig ystod well o gyfleoedd a chymorth ym maes addysg i bobl ifanc sy'n profi tlodi.

Mae'r argymhellion hyn, wrth gwrs, yn dwyn goblygiadau arwyddocaol o ran cyllid yn enwedig ar adeg pan fo disgwyl i'r rowndiau gwariant cyhoeddus sydd ar ddod fod yn eithriadol o dynn. Mae'r ymrwymiad i ostwng y gyfradd tlodi ymhlith plant, fodd bynnag, yn elfen bwysig o raglen Llywodraeth Glymblaid y Cynulliad. Pe bai'r cyllid sy'n cael ei wario ar hyn o bryd ar y fenter Rhagori ar gael yn 2008/09, fel sy'n bosib, byddai hynny'n ddefnyddiol ond prin y byddai'n ddigonol. Mae'r posibilrwydd o blygu cyllid ar gyfer ysgolion yn fwy tuag at amddifadedd a thuag at angen eisoes ar yr agenda bolisi a bydd yr ymrwymiad yn y cytundeb Cymru'n Un i adolygu cyllid ar gyfer ysgolion yn ei gwneud yn bosib ystyried hyn. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn awgrymu ffordd ymlaen o safbwynt ariannol.

Er bod gweinyddiaethau olynol Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu polisïau addysg a oedd wedi'u bwriadu i fod o fudd i'r holl bobl ifanc yng Nghymru ond gan roi ystyriaeth ddyladwy i anghenion y rhai mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas, ymddengys fod yr amser yn iawn i ni gryfhau'r pwyslais ar fwy o degwch o ran canlyniadau er mwyn cael gwelliant sylweddol yn y lefelau cyfredol o ran cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru.

Mae ymchwil JRF yn awgrymu, er mwyn i'r holl bobl ifanc sy'n perthyn i'r chwarter sydd ar hyn o bryd yn profi effeithiau tlodi gyflawni'u potensial, bod angen cyflwyno nifer o fentrau polisi integredig sy'n rhoi sylw amlwg iddynt hwy. Nid hwy fyddai'r unig rai i elwa. Os gall yr holl blant sy'n profi tlodi lwyddo, byddant yn cael eu grymuso i symud eu teuluoedd eu hunain allan o dlodi, gan roi terfyn ar y ffactorau sydd wedi bodoli trwy'r cenedlaethau ac sydd mor anhydrin ar hyn o bryd. Felly gall addysg chwarae rhan bwysig o ran galluogi Cymru i ddatblygu erbyn 2020 i fod yn wlad lle nad yw tlodi'n amharu ar ein cenedl mwyach nac yn amharu ar gynnydd addysgol.

Ynglŷn â'r papur hwn

Ysgrifennwyd y papur hwn gan yr Athro David Egan o Sefydliad Cymru dros Ymchwil Gymhwysol i Addysg, Ysgol Addysg Caerdydd, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd.

Mae'n tynnu ar raglen waith JRF ar addysg a thlodi. Mae'r naw astudiaeth gyntaf yn y rhaglen hon, a gyhoeddwyd yn 2007, wedi ymchwilio i nodweddion ar y berthynas rhwng tlodi a chanlyniadau addysgol. Caiff yr adroddiadau unigol eu rhestru yn y cyfeiriadau isod (gweler Cassen; Dean; Frankham; Horgan; Kellett; Raffo; Sutton; Thomson; Wikelely). Mae'r adroddiadau hyn a'r Canfyddiadau cryno, Findings) ar gael i'w lawrlwytho o www.jrf.org.uk/bookshop. Mae dogfen ehangach sy'n crynhoi'r astudiaethau (Hirsch, 2007) hefyd ar gael, ac mae honno'n dwyn ynghyd gasgliadau'r astudiaethau hyn. Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd gwaith ymchwil a dadansoddiadau pellach gan JRF yn datblygu syniadau am ddatrysiadau polisi ac arfer sy'n mynd i'r afael â'r bwlch tlodi ym myd addysg.

Cyfeiriadau

Cassen, R. and Kingdon, G. (2007) *Tackling Low Educational Achievement*. Caer Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Contin You (2006) *Ysgolion Bro: Gwneud i Bethau Ddigwydd.* Caerdydd. Contin You

Cummings, C. et al. (2005) *Evaluation of the Full Services Extended Schools Project.* Nottingham: DfES

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2007) *Adroddiad y Grŵp Tasg a Gorffen ar Gynllunio Lleoedd mewn Ysgolion.* Caerdydd: WLGA

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2006 a 2007), *Cyflawniad Academaidd a'r Hawl i Brydau Ysgol am Ddim 2005, Bwletin Ystadegol 20/2006; Cyflawniad Academaidd a'r Hawl i Brydau Ysgol am Ddim 2006, Bwletin Ystadegol 13/2007*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Davidson, J. (2006) 'Pathways out of poverty', *Agenda: Cylchgrawn y Sefydliad Materion Cymreig*, Haf 2006

Dean, C. et al. (2007) *Schools, Governors and Disadvantage*. Caer Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Egan, D. (2006) 'Educating for Social Justice', *Agenda: Cylchgrawn y Sefydliad Materion Cymreig,* Gwanwyn 2006

Egan, D. a Marshall, S. (2007) 'Educational leadership and school renewal in Wales', *Australian Journal of Education,* Tachwedd 2007

Frankham, J. Edwards-Kerr, D., Humphrey, N. a Roberts, L. (2007) *Inside Exclusion: Learning Partnerships Outside Mainstream Education*. Caer Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Gray, J. a Wilcox, B. (1998) *Good School, Bad School.* Buckingham: Gwasg y Brifysgol Agored

Hirsch, D. (2007) 'Education, poverty and children's perspectives'. JRF *Round-up* (Medi 2007, Cyf: 2123)

Horgan, G. (2007) *The Impact of Poverty on Young Children's Experience of School.* Caer Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Kellet, M. a Dar, A. (2007) *Children Researching Links Between Poverty and Literacy*. Caer Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Kenway, P. a Palmer, G. (207) 'Monitro Tlodi ac Eithrio Cymdeithasol yng Nghymru 2007'. *Canfyddiadau* JRF (Gorffennaf 2007, Cyf: 2096)

Kenway, P., Parsons, N., Carr, J. a Palmer, G. (2005) *Monitro Tlodi ac Eithrio Cymdeithasol yng Nghymru 2005*. Caer Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) *Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion a (2005) Prosiect Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion: Cam 2 Ysgolion Cynradd.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *Dyfodol Teg i'n Plant: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i Fynd i'r Afael â Thlodi ymhlith Plant.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006a) *Dileu Tlodi Ymhlith Plant yng Nghymru: Mesur Llwyddiant.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006b) *Cynllun Cyflawni ar gyfer Tlodi Ymhlith Plant: Cynigion Cam 1.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006c) *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *Fframwaith Drafft ar gyfer Effeithiolrwydd Ysgolion*. Heb ei gyhoeddi.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb: Adroddiad Interim.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Raffo, C., Dyson, A., Gunter, H., Hall, D., Jones, L. a Kalambouka, A. (2007) *Education and Poverty: Mapping the Terrain and Making Links to Educational Policy.* Caer Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru a Plant yng Nghymru (2006) *Mynd i'r Afael â Thlodi Plant yng Nghymru: Canllawiau Arferion Da i Ysgolion*. Caerdydd: Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru / Plant yng Nghymru

Siraj-Blatchford, I. et al. (2006) Prosiect Monitro a Gwerthuso Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn Effeithiol Ledled Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Sutton, L., Smith, N., Dearden, C. a Middleton, S. (2007) *A Child's-eye View of Social Difference.* Caer Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Thomson, P. a Russell, L.(2007) *Mapping the Provision of Alternatives to Permanent Exclusion*. Caer Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

UNICEF (2007) *An Overview of Child Well-Being in Rich Countries*. Cronfa Blant y Cenhedloedd Unedig: Fflorens

Ymchwil heb ei chyhoeddi a gynhaliwyd ar gyfer Prosiect y Fframwaith Rhyngwladol er Trawsnewid Ysgolion

Y Blaid Lafur yng Nghymru a Phlaid Cymru (2007) *Cymru'n Un: Agenda Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru*. Caerdydd.

Wikeley, F., Bullock, K., Muschamp, Y. a Ridge, T. (2007) *Educational Relationships Outside School: Why Access Is Important.* Caer Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Cyhoeddwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree Foundation, The Homestead, 40 Water End, York YO30 6WP. Mae'r prosiect hwn yn rhan o raglen ymchwil a datblygu JRF. Mae'r safbwyntiau hyn, fodd bynnag, yn eiddo i'r awduron ac nid ydynt o anghenraid yn cynrychioli rhai'r Sefydliad.
ISSN 0958-3084

Ar gael mewn fformatau eraill.
Ffôn: 01904 615905 e-bost: info @jrf.org.uk